Atodiad 1:

Pwerau Deddfwriaethol i Godi Tâl

Rydym yn codi tâl am ein gweithgareddau rheoleiddio drwy bwerau a roddir i ni gan ddeddfwriaeth. Mae ein cynlluniau codi tâl wedi cael eu datblygu ar yr egwyddor o adennill costau llawn yn unol â gofynion polisi Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru Llywodraeth Cymru, Dosbarthu Derbyniadau Trysorlys ei Fawrhydi, a rhwymedigaethau o dan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

Ategir ein cynlluniau codi tâl gan yr egwyddor 'y llygrwr sy'n talu', sydd wedi'i hymgorffori yng nghyfraith amgylcheddol y DU ac yn rhyngwladol. Mae'n nodi y dylai'r llygrwr fod yn gyfrifol yn ariannol am y costau sy'n gysylltiedig â llygredd sy'n deillio o'i weithgarwch. Fel rhan o'n Hadolygiad Strategol o'r Rhaglen Codi Tâl rydym wedi adolygu dros 750 o ddeddfiadau trefniad-benodol gan feithrin dealltwriaeth helaeth o'n pwerau cyfreithiol i godi tâl.

Mae gennym nifer o bwerau penodol i godi tâl, sy'n deillio'n bennaf o'n 'swyddogaethau etifeddiaeth'. Er enghraifft, mae swyddogaethau awdurdodau megis Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth a drosglwyddwyd i Cyfoeth Naturiol Cymru o dan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 a Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013. O dan Erthygl 12A Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 mae gennym hefyd bŵer ehangach i godi tâl am waith a wneir.

Mae deddfwriaeth allweddol sy'n galluogi ein cynlluniau codi tâl yn cynnwys:

- Deddf Adnoddau Dŵr 1991
- Deddf y Diwydiant Dŵr 1991
- Deddf yr Amgylchedd 1995
- Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016
- Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012
- Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013